# ADLAIS Y GLOCH

CYLCHLYTHYR **YSGOL GLAN CLWYD** *NEWSLETTER* 03/2026

## DATHLU PEN BLWYDD YN 70
*CELEBRATING OUR 70TH BIRTHDAY WITH A PARTY*

## EISTEDDFOD SIR YR URDD
*URDD COUNTY EISTEDDFOD*

## TEITHIAU LLAWN PROFIADAU
*TRIPS PACKED FULL OF EXPERIENCES*

## DATHLIADAU GWYL DEWI
*ST DAVID'S DAY CELEBRATIONS*


## CYNGOR ADOLYGU
*REVISION ADVICE*

## DARLLEN ER PLESER
*READING FOR PLEASURE*

## CORNEL CHWARAEON
*SPORTS CORNER*



## MYFYRIWR O AMERICA
*STUDENT VISITOR FROM AMERICA*













Annwyl deulu Ysgol Glan Clwyd,

Mae hi bob amser yn dod yn syndod i mi pa mor gyflym mae'r rhifynau yn dod i law sydd yn cadarnhau pa mor gyflym mae'r flwyddyn academaidd yn gwibio heibio hefyd!
Yn sicr mae'r blynyddoedd ers sefydlu'r ysgol wedi hedfan a'n dathliadau ni y tymor hwn wedi nodi'r achlysur arbennig o 70 o flynyddoedd ers sefydlu Addysg Uwchradd Gymraeg yn y fro. Edrychwn ymlaen yn arw at barhau efo'r dathliadau dros y misoedd sydd i ddod.

Mae'r rhifyn hwn yn dathlu'r llu o ddigwyddiadau a llwyddiannau â fu dros fisoedd y gaeaf ac yn ein hatgoffa am y bwrlwm parhaus sydd o fewn ein cymuned gydol y flwyddyn.

Efallai mai un agwedd wahanol i'n newyddlen y tro hwn yw'r pwyslais sydd ar ddarllen er mwyn pleser. Mae hi'n ymgyrch genedlaethol i sicrhau fod sgiliau darllen ein pobl ifanc yn cryfhau - felly beth am fod yn rol-fodelwyr ar eu cyfer ac estyn am nofel neu lyfr da? Gadewch i ni gydweithio ar ysbrydoli ein hieuenctid i ddarllen. Mae'r Gloch yn fan cychwyn!

Mwynhewch wyliau'r Pasg a gadewch i ni edrych ymlaen at haf cynnes a braf.

*Dear Ysgol Glan Clwyd family,*

*It always comes as a surprise to me how quickly these issues arrive which confirms how quickly the academic year flies by too! Certainly the years since the establishment of the school have flown by and our celebrations this term have marked the special occasion of 70 years since the of Welsh Secondary Education in the area. We look forward to continuing the celebrations over the coming months.*

*This issue celebrates the many events and successes that have taken place over the winter months and reminds us of the energy within our community throughout the year.*

*Perhaps one different aspect of our newsletter this time is the emphasis on reading for pleasure. It's a national campaign to ensure that our young people's reading skills strengthen - so why not be role models for them and reach out for a good novel or book? Let's work together on inspiring our youth to read. Y Gloch is a good starting point!*

*Enjoy the Easter holidays and let's look forward to a warm and sunny summer.*



**Sian Alwen**
Pennaeth
*Headteacher*

# Fforwm Sirol Cyngor Ysgolion Sir Ddinbych

Bu pedwar aelod o gyngor bl10 yr ysgol i gynhadledd un dydd yn Ninbych i drafod materion cyffredin i holl ysgolion y sir. Roedd y ffocws ar leihau defnyddiau un tro yn y ffreutur, ac ar geisio gwell ffyrdd o ddileu problem sbwriel. Yn ddiweddarach yn y tymor, bu pedwar o bl11 mewn cyfarfod o'r cyngor ysgolion yn Y Rhyl yn trafod materion allweddol sy'n eu effeithio disgyblion ar draws y sir.

Diolch i Kimarni Kelly, Isaac Reddaway, Sioned Evans a Indie Wringe bl 10 ac i Bleddyn Edwards Jones, Cian Evans, Evie Sue Evans a Mia Harms am eu gwaith yn cynrychioli llais disgyblion yr ysgol.

# *Denbighshire Schools Council County Forum*

*Four members of the school's Year 10 council attended a one-day conference in Denbigh to discuss issues common to all schools in the county. The focus was on reducing single-use items in the canteen and finding better ways to tackle the problem of litter. Later in the term, four pupils from Year 11 attended a meeting of the Schools Council in Rhyl to discuss key issues affecting learners across the county*

*Thank you to Kimarni Kelly, Isaac Reddaway, Sioned Evans and Indie Wringe year 10 and to Bleddyn Edwards Jones, Cian Evans, Evie Sue Evans and Mia Harms for representing the voice of the school's pupils.*



# Ymweliad Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hybu'r Gymraeg

Braf oedd cael croesawu dwy fu'n gyn-ddisgyblion yn yr ysgol sef Cadi Mars Jones a Lois Jones, ynghyd â Lili Jones, pêldroediwr tîm Wrecsam i roi cyflwyniad i ddisgyblion bl10 ac 11 i rannu neges am werth y Gymraeg ym myd gwaith a thu hwnt.

Diolch i'r tair ohonynt ynghyd â dau o swyddogion y CCC sef Ffion a Mabon. Cafwyd sesiwn buddiol a hynod ysgol.

# *Visit from Coleg Cymraeg Cenedlaethol to Promote the Welsh Language*

*It was a pleasure to welcome two former pupils, Cadi Mars Jones and Lois Jones, along with Lili Jones, a Wrexham FC footballer, who delivered a presentation to Year 10 and 11 pupils about the value of the Welsh language in the workplace and beyond.*

*Thank you to all three of them, as well as to Ffion and Mabon from the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. It was an extremely beneficial and inspiring session.*




# Dathlu Pen Blwydd yn 70

Cafwyd dathliad arbennig i nodi pen blwydd yr ysgol, yr ysgol Gymraeg uwchradd gyntaf yng Nghymru, yn ddeg a thrigain oed.

Bu'n noson gofiadwy i ddathlu doniau'r ysgol, yn gyn-ddisgyblion ac yn ddisgyblion y presennol. Cafodd pawb fwynhau cinio tri chwrs, a chyfle i wrando ar anerchiadau gan y Pennaeth, Ms Sian Alwen, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford, Gweinidog y Llywodraeth dros yr iaith Gymraeg, ac un o'r cyn benaethiaid, Mr Meurig Rees.

Rhoddodd yr arlwy cerddorol gyfle i wahodd cyn-ddisgyblion yn ôl sef Mared Williams, Celyn Cartwright a Steffan Rhys Hughes a'r cyfan yn cael ei lywio'n fedrus gan gyn-ddisgybl arall o Henllan yn wreiddiol, Lisa Gwilym. Braf oedd cael cwmni wynebau cyfarwydd o'r ardal ar y soffa sgwrsio, a phob un hefyd yn gyn-ddisgyblion sef Ian Gwyn Hughes, Mair Edwards, Owain Roberts, Llaeth y Llan, Elen Gwen Williams, Groes ynghyd ag Awel ac Emyr, y prif ddisgyblion.

Perfformiwyd dwy gân gan y côr staff a disgyblion sef Yn Y Dechreuad ac Un Dydd Mwy, a chafwyd datganiad ar y delyn gan Meinir Llwyd a Mared Parry. Hefyd, cafwyd perfformiadau cerddorol gan Alys Wyn, Hawys Owen-Casey, Erin Davies, India Wringe, Teegan Jones ac Owain Davies Williams. Diolch hefyd i'r disgyblion bl11 a bl13 a wirfoddolodd i weini'r bwyd mor broffesiynol.

Yn sicr, roedd hon yn noson o ddathlu, ac yn noson i'w chofio.

# *Celebrating 70 Years of YGC*

*A special celebration was held to mark the school's 70th birthday — the first Welsh-medium secondary school in Wales.*

*It was a memorable evening to celebrate the talents of the school, its former pupils, and its current students. Everyone enjoyed a three-course meal and had the opportunity to listen to speeches from the Headteacher, Ms Sian Alwen; the Right Honourable Mark Drakeford, Government Minister for the Welsh Language; and one of the former headteachers, Mr Meurig Rees.*

*The musical programme provided an opportunity to invite former pupils back, including Mared Williams, Celyn Cartwright and Steffan Rhys Hughes, with the whole evening skilfully hosted by another former pupil originally from Henllan, Lisa Gwilym. It was lovely to have familiar faces from the area on the conversation sofa, all of whom were also former pupils: Ian Gwyn Hughes, Mair Edwards, Owain Roberts (Llaeth y Llan), Elen Gwen Williams (Groes), along with Awel and Emyr, the head pupils.*

*Two songs were performed by the staff and pupil choir — Yn Y Dechreuad and Un Dydd Mwy — and there was a harp performance by Meinir Llwyd and Mared Parry. There were also musical performances from Alys Wyn, Hawys Owen-Casey, Erin Davies, India Wringe, Teegan Jones and Owain Davies Williams. Thanks also go to the Year 11 and Year 13 pupils who volunteered to serve the food so professionally.*

*It was certainly an evening of celebration, and one to remember.*

**Cliciwch yma i weld rhaglen ddogfen fer o'r noson gan 'Heno' ar S4C.**
***Click here to see a small documentry of the night by 'Heno' on S4C.*** [4:50]
https://drive.google.com/file/d/1uigN3Biaj43hCuJtpjmsojEk_zwh1jLn/view?usp=drive_link

**NEU SGANIWCH YMA!**
***OR SCAN HERE!***

# Neges Olaf Mike Peters

Dathlwn hefyd gyfraniad Dylan ac Evan Peters o Ddyserth, y ddau yn gyn-ddisgyblion diweddar, yn y rhaglen Gwyl Ddewi Neges Olaf Mike Peters, er cof am eu tad. Go dda pob un ohonoch!

*We also celebrate the contribution of Dylan and Evan Peters from Dyserth, both recent former pupils, who appeared in the Gwyl Ddewi: Neges Olaf Mike Peters programme in memory of their father. Very well done to all of you!*



# Seren S4C

Llongyfarchiadau i Elfyn Williams bl8 ar ei lwyddiant yn y rhaglen Y Galeri Luniau Stwnsh S4C drwy ddangos ei ddawn ffotograffiaeth yn tynnu lluniau anifeiliaid. Cafodd y rhaglen ei darlledu yn ddiweddar a gwych gweld fod Elfyn drwodd i'r rownd nesaf. Amdani, Elfyn!

# *S4C Star*

*Congratulations to Elfyn Williams, Year 8, on his success on the S4C Stwnsh programme Y Galeri Luniau, where he showcased his photography talent by taking pictures of animals. The programme was broadcast recently, and it was fantastic to see that Elfyn made it through to the next round. Go for it, Elfyn!*



# Cân i Gymru




Da oedd gweld rhai o'n disgyblion yn cyfrannu i'r gystadleuaeth Cân i Gymru eleni. Cafodd Gruff bl13 gyfweliad byw ar S4C wrth iddo fod yno i gefnogi ei dad, Rhodri Evans ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth; a Mabon Roberts bl13 yn cael ei gyfweld wrth iddo fod yno i gefnogi ei daid, Gwynedd Maes y Waun. Braf hefyd oedd gweld ein cyn-ddisgybl sef Jacob Elwy yn perfformio'r gân ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth.

*It was great to see some of our pupils contributing to this year's Cân i Gymru competition. Gruff, Year 13, had a live interview on S4C while he was there supporting his father, Rhodri Evans, who came 3rd in the competition; and Mabon Roberts, Year 13, was interviewed while supporting his grandfather, Gwynedd Maes y Waun. It was also lovely to see our former pupil, Jacob Elwy, performing the song that came second in the competition.*





# Profiad bythgofiadwy

Cafodd Alys Wyn Jones bl11 gyfle arbennig i ganu'r unawd "Walking in the Air" gyda cherddorfa fyw, NEW Sinfonia, yn Neuadd Aston, Wrecsam. Dewiswyd Alys Wyn o Ddinbych o blith nifer a oedd wedi cystadlu am y rhan i ganu prif gân y ffilm enwog The Snowman.

Dros y Pasg mi fydd Alys a chyd-ddisgybl bl 11, sef Mared Parry yn perfformio i'r Brenin a'r Frenhines mewn gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan. Am brofiad! Pob dymuniad da i'r ddwy!

# *An Unforgettable Experience*

*Alys Wyn Jones, Year 11, had a very special opportunity to sing the solo "Walking in the Air" with a live orchestra, NEW Sinfonia, at Aston Hall, Wrexham.*

*Alys Wyn, from Denbigh, was chosen from among many who had auditioned for the role of singing the main song from the famous film The Snowman.*

*Over the Easter holidays, Alys and fellow year 11 pupil Mared Parry will be performing for the King and Queen in a special service held at the Cathedral. All the best to you both. What an experience!*



# TEITHIAU LLAWN PROFIADAU
# TRIPS PACKED FULL OF EXPERIENCES

## Taith yr Adran Gymraeg i'r Theatr

Bu disgyblion bl12 yn gwylio drama Waldo gan gwmni Mewn Cymeriad yn Theatr Twm o'r Nant. Mwynhawyd y cyfle i ddysgu am hanes y bardd enwog hwn yr astudir y gerdd 'Preseli' o'i eiddo fel rhan o'r cwrs Safon Uwch.

I Gaernarfon y teithiodd disgyblion bl13 i weld drama Ladi'r Wyrcws, drama yn cyd-fynd i'r dim â'u nofel osod Safon Uwch Un Nos Ola Leuad. Cyn gweld y ddrama, roedd y disgyblion wedi cael taith o gwmpas Bethesda dan arweiniad y prifardd Ieuan Wyn i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r nofel hon.



## *Welsh Department Theatre Trip*

*Year 12 pupils went to watch the play* Waldo by the company Mewn Cymeriad at Theatr Twm o'r Nant. They enjoyed the opportunity to learn about the history of this famous poet, whose poem Preseli is studied as part of the A-Level course.

Year 13 pupils travelled to Caernarfon to see the play Ladi'r Wyrcws, a production that ties in perfectly with their set A-Level novel Un Nos Ola Leuad. Before watching the play, the pupils were given a tour around Bethesda led by the Archdruid, Ieuan Wyn, to deepen their understanding of the novel.

## Paris - profiad disgybl

Yn ystod mîs Chwefror cefais y fraint o fynd i Paris hefo fy nosbarth TGAU Ffrangeg. Roedd yn brofiad gwych ac roeddwn i wedi cael y cyfle i fynd i ymweld â llawer o lefydd fel y Musée d'Orsay, Montmartre, Tour Montparnasse a'r Tŵr Eiffel - cawsom y cyfle i fynd fyny reit i'r top, roedd yn reit frawychus!

Roedd y bwyd yn flasus iawn yno ac fe gawson ni'r cyfle i drio bwydydd gwahanol. Hefyd aethon ni i crêperie a chael crêpe caws a ham a crêpe siocled. Cawsom gyfle rhydd i ymarfer ein Ffrangeg wrth grwydro'r strydoedd bach a gweld siopau bach oedd gyda llawer o bethau diddorol yno, a dysgon bethau newydd wrth weld llawer o olygfeydd prydferth. Roedd yn brofiad gwych ac roedd yn werth pob ceiniog!




## *Paris – a pupil's experience*

*During February, I had the privilege of going to Paris with my GCSE French class. It was an amazing experience, and I had the chance to visit many places such as the Musée d'Orsay, Montmartre, Tour Montparnasse and the Eiffel Tower — we even had the opportunity to go right to the top, which was quite scary!*

*The food there was delicious, and we had the chance to try lots of different dishes. We also went to a crêperie and had a cheese and ham crêpe, as well as a chocolate crêpe. We had some free time to practise our French while wandering the little streets and exploring small shops full of interesting things, and we learned new things while seeing many beautiful sights.* It was a fantastic experience and worth every penny!

**Eiri Evans, Bl10**







# Efrog Newydd - profiad disgybl

Yn dilyn y siom o'r daith wreiddiol yn cael ei gohirio oherwydd tywydd mawr yn Efrog Newydd, roeddwn i'n andros o falch pan glywsom ein bod yn gallu mynd am y ddinas fawr yr wythnos ganlynol. Felly i ffwrdd â ni gan hedfan o Heathrow i Ddulyn, ac yna mlaen i JFK Efrog Newydd. Y peth cyntaf wnaeth fy nharo wrth gyrraedd y gwesty oedd prysurdeb anhygoel y lle. Roedd ceir, bysiau a phobl ymhob man!

Fe lwyddon ni i weld holl ryfeddodau'r ddinas ond y mwyaf cofiadwy i mi fydd yr ymweliad ag Amgueddfa 9/11 a cherdded dros Bont Brooklyn yn y nos a gweld holl oleuadau'r ddinas. Yr hyn y byddaf yn ei gofio am y daith yw gweld y sioe Little Shop of Horrors a chan fy mod i'n astudio Cerdd a Drama roeddwn wrth fy modd ac wedi gwirioni gyda'r profiad.

Diolch yn fawr iawn i'r staff am drefnu'r profiad yma i ni.

**Ela Lloyd-Rogers, Bl13**

# *New York – a pupil's experience*


*After the disappointment of the original trip being postponed because of severe weather in New York, I was absolutely delighted when we heard that we would be able to go to the Big Apple the following week. So off we went, flying from Heathrow to Dublin, and then on to JFK, New York.*
*The first thing that struck me when we arrived at the hotel was how incredibly busy the place was. There were cars, buses and people everywhere!*

*We managed to see all the wonders of the city, but the most memorable for me will be the visit to the 9/11 Museum and walking across Brooklyn Bridge at night, seeing all the city lights.*

*What I will remember most about the trip is seeing the show Little Shop of Horrors. As I study Music and Drama, I absolutely loved it and was blown away by the experience.*

*A huge thank you to the staff for organising this experience for us.*






# Taith Valencia

Taith pêldroed oedd ffocws y daith hon i Valencia ynghyd â rhoi profiad o fywyd gwlad arall i'n disgyblion. Bu'r disgyblion yn chwarae yn erbyn timau Sbaeneg yn ystod yr wythnos a chael sesiynau hyfforddi gan gyn-chwaraewyr La Liga. Cawsant ymweld â stadiwm Valencia sef y Mestalla oedd yn agoriad llygad i bawb. Chwaraeon nhw hefyd yn erbyn ysgolion rhyngwadol gyda chwaraewyr o wledydd ar draws y byd yn cymryd rhan.

# *Valencia Trip*

*The focus of this trip to Valencia was football, as well as giving our pupils the experience of life in another country. During the week, the pupils played against Spanish teams and took part in training sessions led by former La Liga players. They also visited Valencia's stadium, the Mestalla, which was a real eye-opener for everyone. They played matches against international schools too, with players from countries all over the world taking part.*







# Dathliadau Gŵyl Dewi

*Dathlwyd dydd ein nawddsant eleni drwy gynnal cyfres o wasanaethau ysgol. Rhannwyd negeseuon gyda'n disgyblion am berthnasedd neges Dewi Sant i ni heddiw wrth wneud y pethau bychain. Cafwyd darlleniadau gan y prif ddisgyblion Emyr Williams ac Awel Hughes, a datganiad cerddorol gan Erin Davies ac Owain Davies.*

*Aeth disgyblion bl7 i Ddinbych i fod yn rhan o'r orymdaith arbennig gan gyd-gerdded gyda disgyblion ysgolion yr ardal i fyny Stryd y Dyffryn cyn ymgynnull yn y sgwar o flaen Neuadd y Dref gyda DJ Owain Llyr yn diddanu. Dyma brofiad arbennig yn dathlu ein Cymreictod, a diolch i dîm y Menter Iaith am eu holl waith trefnu i wneud hyn yn bosib i'n disgyblion.*



# *St David's Day Celebrations*

This year, we celebrated our patron saint's day by holding a series of school services. Messages were shared with our pupils about the relevance of St David's message for us today, especially the importance of doing the little things. Readings were given by the head pupils, Emyr Williams and Awel Hughes, and there was a musical performance by Erin Davies and Owain Davies.

Year 7 pupils went to Denbigh to take part in the special parade, walking together with pupils from local schools up Vale Street before gathering in the square outside the Town Hall, where DJ Owain Llyr entertained the crowd. This was a wonderful experience celebrating our Welsh identity, and thanks go to the Menter Iaith team for all their work in making this possible for our pupils.











# Gyrfa Cymru Careers Wales

**SGANIWCH YMA!**

Cynigir cefnogaeth gyrfa i ddisgyblion drwy ein partneriaeth gyda Rhian Edwards, Gyrfa Cymru sy'n gyson yn yr ysgol. Cofiwch fod modd i'ch plentyn holi am apwyntiad drwy ofyn i'r pennaeth blwyddyn. Dyma wybodaeth am ddarpariaeth Gyrfa Cymru drwy eu cylchlythyr.
**https://gyrfacymru.llyw.cymru/sites/default/files/images/cylchlythyr-rhieni-gwanwyn26.pdf**

***SCAN HERE!***

*Career support is offered to pupils through our partnership with Rhian Edwards, Careers Wales who is regularly at the school. Remember that your chilch can ask for a careers appointment by asking the head of year. Here is information about Careers Wales' provision through their newsletter.*
***https://careerswales.gov.wales/sites/default/files/images/parent-newsletter-spring26_0.pdf***

# Hyfforddiant Staff

Cyn y gwyliau hanner tymor, daeth Kate Jones, yr arbenigwraig addysg gydnabyddus i arwain sesiwn i staff sut i gefnogi disgyblion i adalw gwybodaeth yn effeithiol. Roedd y neges ganddi yn un amserol wrth i gyfnod arholiadau allanol agosau. Rhannodd nifer o negeseuon gyda ni fel staff gyda ffocws ar helpu disgyblion i allu storio gwybodaeth yn y cof tymor hir.

# *Staff Training*

*Before the half-term holidays, Kate Jones, the well-known education specialist, came to lead a session for staff on how to support pupils in recalling information effectively. Her message was a timely one as the external exam period approaches. She shared several key points with us as staff, focusing on helping pupils store information in their long-term memory.*

# Myfyriwr o'r America ar ymweliad

Trwy fis Ionawr bu Minea Tiitinen, myfyriwr ym Mhrifysgol MIT yn yr UDA, yn yr ysgol ar ymweliad. Cafodd gyfle i weithio efo nifer o grwpiau o flwyddyn 7 i 12 yn yr Adran Wyddoniaeth, Mathemateg a Ffrangeg. Yn ogystal, bu Minea yn yflwyno gweithdai Roboteg ar y cyd gyda'r adran Dechnoleg i ddisgyblion Blwyddyn 6 Ysgolion Cynradd ein clwstwr.

# *Student Visitor from America*

*Throughout January, Minea Tiitinen, a student from MIT University in the USA, was visiting the school. She had the opportunity to work with several groups from Years 7 to 12 in the Science, Mathematics and French departments. In addition, Minea delivered Robotics workshops jointly with the Technology department for Year 6 pupils from our cluster's primary schools.*







## Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer sef Mared ac Elenid Parry ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Rhanbarth Offerynnol ar yr unawd telyn. Pob dymuniad da i Mared yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Môn ym mis Mai.

## *Musical Success*

*Congratulations to the two sisters, Mared and Elenid Parry, on their success in the Regional Instrumental Eisteddfod in the harp solo competition. Best wishes to Mared in the National Eisteddfod in Anglesey in May.*

## Siarad Cyhoeddus CFFI

Ymfalchiwn yn llwyddiant ein disgyblion fu'n cystadlu yn y Siarad Cyhoeddus gyda CFFI yn ddiweddar, ac mor falch ydym ohonynt yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu'r sgil bwysig hon. Pob dymuniad da i bob un ohonynt fydd yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn ddiweddarach y mis.

## *YFC Public Speaking*

*We are proud of the success of our pupils who recently competed in the YFC Public Speaking competition, and we are delighted to see them taking the opportunity to develop this important skill. Best wishes to all of them as they go on to the national round later this month.*


## Pencampwyr Digidol

Bu'r pencampwyr digidol yn rhan o weithdy Sialens Chain Reaction er mwyn paratoi at y sialens ym mis Mehefin ym Mhrifysgol Bangor pryd y bydd tîm o ddisgyblion yn arddangos yr uned maen nhw wedi'i greu.

## *Digital Champions*

*The digital champions took part in a Chain Reaction Challenge workshop in preparation for the challenge taking place in June at Bangor University when a team of pupils will demonstrate the unit they've created. Pob lwc!*






# Darllen Er Pleser

Yn yr ysgol, rydym yn gweithio i ddatblygu ymhellach y profiadau darllen a gaiff eich plentyn ar draws y cwricwlwm.

**Pam felly fod darllen mor bwysig i bobl ifanc?**

- Mae darllen yn gwella perfformiad academaidd.
- Mae darllen yn cefnogi datblygiad yr ymennydd
- Mae darllen yn cefnogi dealltwriaeth emosiynol
- Yn wir, mae'n sgil hanfodol ar gyfer bywyd!

**Awgrymiadau i rieni ar sut i annog eich plentyn i ddarllen**

- Crewch awyrgylch addas. Diffoddwch y teledu, ffonau a gemau. Mae hyd yn oed 10 munud o ddarllen yn ddefnyddiol iawn.
- Cadwch bethau'n realistig
- Gadewch i'ch plentyn ddewis
- Chwiliwch am lyfrau sy'n addas i'w lefel ddarllen
- Dangoswch esiampl drwy ddarllen eich hun
- Trafodwch yr hyn mae'ch plentyn yn ei ddarllen
- Cofiwch wrthsefyll yr awydd i feirniadu
- Cysylltwch ddarllen â diddordebau eich plentyn

# *Reading For Pleasure*

*Here in school, we are working to develop further the reading experiences your child has across the curriculum.*


***So why is reading so important for young people?***

- *Reading boosts academic performance*
- *Reading supports healthy brain development*
- *Reading supports emotional intelligence*
- *It is an essential skill for all aspects of life!*


***Tips for parents on how to encourage your child to read***

- *Create the right atmosphere. Turn off the TV, phones and games. Even 10 minutes of reading is very helpful.*
- *Keep things real*
- *Let your teenager choose*
- *Look for books at your teen's reading level*
- *Model reading*
- *Discuss what your child reads*
- *Resist the urge to criticise*
- *Connect reading to your teen's passion*


## Hoff Lyfrau Staff / *Staff's Favourite Books*




Lora Lewis
**Mudferwi**
gan/by
**Rebecca Roberts**




Dewi Owen
**The Housemaid**
gan/by
**Freida McFadden**




Sarah-Jayne Culshaw
**Close to Death**
gan/by
**Anthony Horowitz**





Ifan Jenkins
**Stormlight Archives**
gan/by
**Brandon Sanderson**





Mared Jones
**Sêr Y Nos Yn Gwenu**
gan/by
**Casia Wiliam**





Stephanie Owen
**Llechi**
gan/by
**Manon Steffan Ros**




Cerian Jones
**V + Fo**
gan/by
**Gwenno Gwilym**





Ethni Hayward
**Pride and Prejudice**
gan/by
**Jane Austen**




Helen Parry
**A Thousand Splendid Sins**
gan/by
**Khaled Hosseini**





Mari Terschowetz
**Cysgod y Mabinogi**
gan/by
**Peredur Glyn**





Sian Davies
**Gwynt y Dwyrain**
gan/by
**Alun Ffred**





Steffan Tudor
**Lord of the Rings**
gan/by
**Tolkien**




Joe Stoneley
**The Great Gatsby**
gan/by
**F Scott Fitzgerald**




Joe Wellington
**The Remains of the Day**
gan/by
Kazuo Ishiguro




Dafydd Gruffydd
**The Da Vinci Code**
gan/by
**Dan Brown**

# CORNEL CHWARAEON
# *SPORTS CORNER*

Llongyfarchiadau i fechgyn bl7 ar guro mewn gêm beldroed yn erbyn Y Rhyl 4-1 a da iawn Lincoln Meyers ar gael ei enwi'n chwaraewr gorau'r gêm.

*Congratulations to the Year 7 boys on their 4–1 football win against Rhyl, and well done to Lincoln Meyers for being named player of the match.*

Da iawn i hogiau blwyddyn 8 am ddod yn ail mewn gêm gwpan Gogledd Ddwyrain Cymru. Fe guron nhw dair gêm, a chael un gêm gyfartal a cholli un. Pob dymuniad da iddynt yn y rownd nesaf.

*Well done to the Year 8 boys for coming second in the North East Wales cup competition. They won three games, drew one and lost one. Best of luck to them in the next round.*

Da iawn hefyd i griw pêldroed merched a bechgyn bl 7-8 ar guro eu gemau a dod yn bencampwyr Gogledd Cymru.

*A big well done also to the Year 7–8 girls' and boys' football teams for winning their matches and becoming North Wales champions.*

Llongyfarchiadau mawr i Nansi Jones bl11 ar gael ei dewis i chwarae i dîm Rygbi Gogledd Cymru dan 18. Ymfalchiwn fel ysgol yn ei llwyddiant.

*Huge congratulations to Nansi Jones, Year 11, on being selected to play for the North Wales Under-18 Rugby team. We are very proud of her achievement as a school.*

Llongyfarchiadau i fechgyn BL10/11 sydd ar guro twrnament 7 pob ochr yn Mae Colwyn. Dyma'r tro cyntaf i YGC guro'r twrnament yn erbyn amrywiaeth o ysgolion y Gogledd Gorllewin. Curwyd Altringham Grammar yn y gêm derfynol i gipio'r cwpan.

*Congratulations to the Year 10/11 boys on winning the 7-a-side tournament in Colwyn Bay. This is the first time YGC has won the tournament against a range of schools from across the North West. Altrincham Grammar were defeated in the final to secure the cup.*

Pob lwc i BL8 a i BL10 sydd yn cystadlu yn rownd derfynol plât rygbi Clwyd a Phowys yng Nghlwb Rygbi Wrecsam yn erbyn Ysgol Y Trallwng ac Ysgol Uwchradd Caereinion.

*Best of luck to Year 8 and Year 10, who are competing in the Clwyd and Powys rugby plate final at Wrexham Rugby Club against Ysgol Y Trallwng and Caereinion High School.*



**Tîm Rygbi 7 Bl10/11**
*Year 10/11 Rugby 7s Team*



**Nansi Jones Bl11 Rygbi Gogledd Cymru D18**
*Nansi Jones North Wales Rugby U18*



**Pêl Droedwyr Bl7**
*Yr 7 Footballers*



**Tîm Rygbi Bl8** *Yr8 Rugby Team*

**AMSERLEN ALLGYRSIOL**
***EXTRA CURRICULUM TIMETABLE***

## Diwrnod Gofalwyr Ifanc

Diolch i griw caredig o ddisgyblion a drefnodd stondin gacennau i godi ymwybyddiaeth am ddiwrnod dathlu gofalwyr ifanc gan godi swm anrhydeddus o £561.

## *Young Carers Day*

*Thank you to the kind group of pupils who organised a cake stall to raise awareness for Young Carers Day, collecting an impressive total of £561.*



## Clwb Crosio Amser Cinio


Daw criw o ddisgyblion at ei gilydd bob amser cinio dydd Mawrth i ddysgu crosio. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno.

## *Lunchtime Crochet Club*

*A group of pupils come together every Tuesday lunchtime to learn how to crochet. A warm welcome to anyone who would like to join.*



# EISTEDDFOD SIR




Mared Parri


Hawys Owen-Casey


Alys Wyn Jones


Esyllt Dafydd


Mabli Lebbon-Pierce


Renesmai Stewart-Balzaretti


Martha Roberts


Loti Roberts


Lara Chan-Gizzi


Ethni Davies

Llongyfarchiadau i bob un o'n disgyblion fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Sir. Cafwyd diwrnod byrlymus o gystadlu a phawb ar ei orau. Diolch i bob un ohonoch. Dymunwn y gorau i'r rhai fydd yn cynrychioli Sir Ddinbych yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Môn ddiwedd Mai.

*Congratulations to all of our pupils who competed in the County Eisteddfod. There was a lively day of competition and everyone was at their best. Thanks to all of you. We wish the best to those who will represent Denbighshire at the Urdd National Eisteddfod in Anglesey at the end of May.3ydd - Renesmai Stewart-Balzaretti*

**Cor Cerdd Dant Bl.13 ac iau**
1 Ysgol Glan Clwyd

**Perfformiad Theatrig i Grwp Bl.7, 8 a 9**
1 Ysgol Glan Clwyd

**Perfformiad Theatrig i Grwp Bl.10 ac o dan 19 oed**
1 Ysgol Glan Clwyd
Cor Bl.7, 8 a 9
1 Cor Ysgol Glan Clwyd

**Parti Bechgyn Bl.7, 8 a 9**
1 Parti Ysgol Glan Clwyd

**Grwp Llefaru Bl.7, 8 a 9**
1 Grwp Ysgol Glan Clwyd

**Perfformio Golygfa Bl.10 a dan 19 oed**
1 Alys, Erin a Hawys
2 Anni, Efa, Megan a Sioned

**Cyflwyno Alaw Werin Bl.10 a dan 19 oed**
1 Hawys Owen-Casey

**Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed**
1 Mabli Lebbon Pierce
2 Hawys Owen-Casey
3 Esyllt Dafydd

**Unawd S/A Bl.10 a dan 19 oed**
1 Hawys Owen-Casey
2 Alys Wyn

**Monolog Bl.10 a dan 19 oed**
2 Hawys Owen-Casey

**Perffomiad o gan Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed**
2 Alys Wyn
3 Hawys Owen-Casey

**Monolog Bl.7, 8 a 9**
2 Loti Grug

**Unawd Merched Bl.7, 8 a 9**
3 Lara Chan Gizzi

**Cyflwyno Alaw Werin Bl.7, 8 a 9**
3 Celyn Hughes

**Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9**
3 Lara Chan Gizzi

**Llefaru Unigol Bl.7, 8 a 9 (D)**
3 Renesmai Stewart-Balzaretti

**Unawd Telyn bl 7-9**
2 Elenid Parry

**Unawd Telyn bl10 a dan 19oed**
1 Mared Parry

**Dawns Unigol Bl 7-9**
1 Ethni Davies

**Dawns Pâr dan 25 oed**
1 Ethni Davies
3 Megan a Tilly





Côr Cerdd Dant Bl13 ac Iau



Perfformaid Theatrig Grwp



Côr Merched Bl7-9



Dawns Pâr



Perfformiad Theatrig Bl7-9



Perfformaid Theatrig Grwp



Parti Bechgyn



Perfformaid Theatrig Grwp

# Cyngor Adolygu

**Wrth i dymor yr arholiadau agosau, dyma gyngor adolygu ichi ei rannu gyda'ch plentyn**

1. Diffoddwch eich ffôn a'i roi mewn ystafell arall fel na fydd yn tynnu'ch sylw.
2. Gwnewch yn siwr fod gennych le pwrpasol i adolygu lle gallwch weithio'n drefnus.
3. Gwnewch amserlen adolygu sy'n helpu chi i roi sylw i bob uned a phwnc, ac ailymweld â'r uned ddwywaith eto cyn yr arholiadau. Trefnwch hyn dros gyfnod o wythnosau.
4. Defnyddiwch eich llyfrau dosbarth a Google Classroom i greu rhestr o'r pethau mae angen eu hadolygu.
5. Defnyddiwch wahanol ffyrdd o adolygu: cardiau fflach, post-its ar yr oergell neu ar eich desg, mapiau meddwl.
6. Gwiriwch eich dysgu: darllenwch eich nodiadau → cau'r llyfr → profwch eich hun → gwirio'r atebion → ailadrodd.
7. Recordiwch eich hun yn darllen y gwaith. Ailwrando.
8. Ticiwch eich rhestr adolygu wrth i chi fynd ymlaen: Beth ydych chi'n ei wybod yn dda? Beth sydd angen mwy o waith?
9. Defnyddiwch y dull 25:5: 25 munud o adolygu → 5 munud o seibiant → ailafael.
10. Peidiwch ag adolygu'n rhy hwyr - mae cwsg yn bwysig iawn i'ch ymennydd.
11. Ar ôl sesiwn adolygu, gwobrwywch eich hun drwy fynd am dro neu wylio ffilm.
12. Holwch eich athrawon os oes rhywbeth dydach chi ddim yn ei ddeall — mae hynny'n normal ac yn iawn!

**Does dim modd torri corneli wrth adolygu! Rhaid buddsoddi amser a dal ati. Dim ond chi all wneud hyn. Wrth adolygu'n gyson, byddwch yn lleihau straen arholiadau ac yn codi'ch hyder.**

# Revision Tips

**As we approach exam season here are some revision tips for you to share with your teenager**

1. Put your phone away – ideally in another room so it can't distract you.
2. Find a good place to revise where you can stay organised and focused.
3. Make a revision timetable that helps you cover every topic and go back over things before the exams.
4. Use your classwork and Google Classroom to make a list of what you need to revise for each subject.
5. Try different revision methods: Flashcards, Post-its on your fridge or desk Mind maps
6. Check your learning: read your notes → close the book → test yourself → check answers → repeat.
7. Record yourself reading your notes and listen back to help things stick.
8. Tick things off as you revise. Notice: What you know well? What needs more practice?
9. Use the 25:5 method: 25 minutes of revision → 5-minute break → repeat.
10. Don't revise too late. Sleep helps your brain remember things.
11. Reward yourself after a session – go for a walk or watch something you enjoy.
12. Ask your teachers if you're stuck – that's what they're there for!

**There is no quick fix for revision! You have to invest time and keep going – only you can do it. If you revise regularly, exams will feel less stressful and your confidence will grow.**

BBC BITESIZE

**A programme worth watching:**
https://www.bbc.co.uk/bitesize/articles/zn3497h#zq2nf82

NEU SGANIWCH YMA!
OR SCAN HERE!